Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

## 5.a Does unman i fynd!



Aeth Ricky a'i ffrind i lawr i'r parc i chwarae pêl-droed. Yn anffodus, pan gyrhaeddon nhw roedd grŵp o blant hŷn yno yn cicio'u sodlau. Pan ddechreuodd y bechgyn eu poeni nhw penderfynodd Ricky a'i ffrind adael.
Aethant i fyny'r lôn a dechrau cicio'r bêl yn erbyn wal tŷ. Daeth hen ddyn rownd y gornel a gweiddi arnynt i beidio, a mynd adref. Dywedodd Ricky yn haerllug, "Cer i ffwrdd! Mae'n iawn i ti, does ganddon ni unman i fynd!"

1. Ysgrifennwch restr o'r ymddygiadau gwrthgymdeithasol sydd i'w cael yn y stori uchod.
2. Trafodwch gyda phartner sut y gallai pob un o'r cymeriadau fod wedi gwneud dewisiadau gwell, mwy cadarnhaol.
    - Y grŵp o fechgyn hŷn
    - Yr hen ddyn
    - Ricky a'i ffrind
3. Lle allwch chi fynd i chwarae pêl-droed/gemau yn eich ardal chi?

© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent
Wnes i Ddim Meddwl!

TARIAN+

HEDDLU POLICE